

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms.Karyl May Ffôn: (01443) 424045 –

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 25 Mawrth, 2015 am 5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1 Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 **CYHOEDDIADAU**

3 **COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 1 - 10 ar 4 Mawrth, 2015

4 **LLYWODRAETHU AGORED:**

5 **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (1) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R.Lewis i Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman)**

“A wnaiff Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol ddatganiad yngŷn â mentora a datblygu Cynghorwyr?”

- (2) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L.M.Adams i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan)**

“A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar y Fframwaith Pennu Polisi'r Gyllideb fel sydd wedi'i nodi yn y Cyfansoddiad?”

- (3) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Powderhill i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Amgylchedd, Hamdden a Chwaraeon (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings)**

“A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Hamdden ddatganiad ar Bwll Nofio'r Ddraenen Wen?”

- (4) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Bonetto i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a Chydraddoldeb (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins)**

“A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau i Blant ddatganiad ar weithio trwy bartneriaeth?”

- (5) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Smith i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan)**

“A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar adfywio?”

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- 7 **Strategaeth Cylch Rheoli'r Trysorlys gan gynnwys Strategaeth Buddsoddi Blynnyddol a Mynegyddion Materion Darbodusrwydd a Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) ar gyfer 2015/16** 11- 36

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen.

- 8 Cronfa Galluogi ar gyfer Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y Gymuned** 37 – 40

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen.

- 9 Rhaglen Gyfalaf Dair Blynydd y Cyngor 2015/16 – 2017/18** 41 – 66

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cabinet.

- 10 Datganiad 2015/16 y Cyngor ar Bolisi Cyflogau** 67 – 76

Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol.

- 11 Ymgynghoriad – Papur Gwyn – “Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol”** 77 - 84

Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a Chyfarwyddwr Gwasanaeth, Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus.

12 RHYBUDDION O GYNIGION

- (1) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol R.Lewis, B.Stephens, L.M.Adams, (Mrs.)T.Bates, H.Boggis, J.Bonetto, S.A.Bradwick, A.Calvert, P.Cannon,QPM, S.Carter, (Mrs.)J.Cass, (Mrs.)A.Crimmings, W.J.David, A.L.Davies MBE, (Mrs.)A.Davies, J.Davies, (Mrs.)M.E.Davies, (Mrs.)L.De Vet, J.Elliott, S.Evans, M.Forey, A.S.Fox, M.Griffiths, P.Griffiths, (Mrs.)E.Hanagan, G.Holmes, G.E.Hopkins, (Mrs.)S.J.Jones, W.L.Langford, (Mrs.)C.Leyshon, S.Lloyd, C.J.Middle, K.Montague, A.Morgan, B.Morgan, M.A.Norris, S.Pickering, K.A.Privett, S.Rees, (Mrs.)A.Roberts, J.Rosser, G.Smith, G.Stacey, (Mrs.)M.Tegg, R.K.Turner, G.Thomas, (Mrs.)J.S.Ward, M.J.Watts, M.Webber, W.D.Weeks, C.J.Williams, D.H.Williams, T.Williams, C.J.Willis a R.Yeo:

“Bod y Cyngor hwn yn nodi'r gwaith a wneir gan y Maer yn Brif Ddinesydd y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys y

cyfraniad a wneir trwy weithgareddau codi arian er budd elusennau sydd wedi codi cannoedd o filoedd o bunnoedd ar gyfer achosion da.

Bod y Cyngor hwn yn ailystyried swyddogaeth Maer y Cyngor fel sydd wedi'i nodi yn Neddf Llywodraeth Leol 1972.

Dylai swyddogaeth y Maer gael ei hadolygu o ran y swyddogaeth a chyfrifoldebau'r swydd o fewn y Cyngor. Fe allai newidiadau o'r fath gynnwys lleihau/diddymu'r elfen seremonïol yn gefn i'r gwaith effeithlonrwydd parhaus a wneir gan y Cyngor ar hyn o bryd.

Yn ogystal â hynny, fe allai'r swyddogaeth o gadeirio Pwyllgor Cyfansoddiad y Cyngor hefyd fod yn rhan o'r swyddogaeth newydd. Fe ddylai hyn a newidiadau eraill gael eu trafod yn y Pwyllgor Cyfansoddiad a chydag unrhyw argymhellion gael eu gweithredu yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cyngor."

- (2) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol D.H.Williams, R.Lewis, M.Adams, (Mrs.)T.Bates, H.Boggis, J.Bonetto, S.A.Bradwick, A.Calvert, P.Cannon,QPM, S.Carter, (Mrs.)J.Cass, (Mrs.)A.Crimmings, W.J.David, A.L.Davies MBE, (Mrs.)A.Davies, J.Davies, (Mrs.)M.E.Davies, (Mrs.)L.De Vet, J.Elliott, S.Evans, M.Forey, A.S.Fox, M.Griffiths, P.Griffiths, (Mrs.)E.Hanagan, G.Holmes, G.E.Hopkins, (Mrs.)S.J.Jones, W.L.Langford, (Mrs.)C.Leyshon, S.Lloyd, C.Middle, K.Montague, A.Morgan, B.Morgan, M.A.Norris, S.Pickering, K.A.Privett, S.Rees, (Mrs.)A.Roberts, J.Rosser, G.Smith, G.Stacey, B.Stephens, (Mrs.)M.Tegg, R.K.Turner, G.Thomas, (Mrs.)J.S.Ward, M.J.Watts, M.Webber, W.D.Weeks, C.J.Williams, T.Williams, C.J.Willis a R.Yeo:

"Dylai'r Cyngor hwn roi'i gefnogaeth i Ymgyrch *Insult to Injury*, y Lleng Brydeinig.


Mae cyn-filwyr yn cael eu gorfodi i ildio'r rhan fwyaf o'u iawndal i dalu am gostau'u gofal cymdeithasol.

Mae iawndal milwrol yn cael ei roi am y poen a gofid, y dioddefiant, a cholli arferion a gallu gweithredu sy'n wynebu milwyr a chyn-filwyr sydd wedi'u hanafu; Dylid **peidio** â'i ystyried fel incwm arferol.

Mae'r Cyngor hwn o'r farn ei bod hi'n annheg bod Pensiynwyr Rhyfel yn cael eu hystyried yn wahanol i gyn-filwyr eraill sydd wedi'u hanafu. Mae'n annerbyniol bod cyn-filwyr o oed pensiwn yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r sifiliaid sydd wedi'u hanafu yn y gweithle, sy'n cael rhoi iawndal i mewn i gronfa ymddiriedolaeth. Mae'r Cyngor o'r farn nad yw'r mater hwn yn cymryd i ystyriaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog sy'n datgan na ddylai milwyr sy'n gwasanaethau, cyn-filwyr na'u teuluoedd wynebu anfantais oherwydd Gwasanaeth Milwrol.

Mae'r Cyngor o'r farn, felly, fod y dull hwn yn annheg ac yn gofyn i'r Pwyllgor(au) Craffu priodol i ystyried y mater hwn i ofalu bod yr awdurdod lleol hwn yn cymryd yr holl gamau priodol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r Cyngor hwn hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd y camau i fynd i'r afael â'r mater hwn yng nghydestun Cymru gyfan trwy roi'r arweiniad priodol er mwyn sicrhau na fydd cyn-filwyr yn cael eu cosbi yn y ffordd hon yn y dyfodol."

- 13 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At sylw: Pob aelod o'r Cyngor

18 Mawrth, 2015

